**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC 08-02(p9)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 12 Rhagfyr 2002 |
| **Amser:** | 9.00am |
| **Lleoliad:** | Committee Rooms 3 and 4 |
| **Teitl:** | Cydbwysedd o ran Rhyw ac Ethnigrwydd ar Grwpiau Gorchwyl a Gorffen |

## Cydbwysedd o ran Rhyw ac Ethnigrwydd ar Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

### Diben

1. Hysbysu'r Pwyllgor o'r trefniadau presennol ar gyfer sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen; rhoi'r hyn o wybodaeth sydd gennym ar y cydbwysedd o ran rhyw a'r cydbwysedd o ran ethnigrwydd; ac edrych ar fodel o arferion gorau sydd wedi'i awgrymu.

### Crynodeb

2. Ar sail y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael, mae 79 o grwpiau gorchwyl a gorffen gan y Cynulliad. Dynion yw 67% o'r aelodau a gwragedd yw 33% ohonynt (nid oes data wedi'u casglu ar unrhyw grwpiau cydbwysedd eraill). Mae'r papur hwn yn disgrifio'r trefniadau presennol ar gyfer penodi aelodau i'r grwpiau hyn er mwyn i aelodau'r Pwyllgor allu ystyried pa gamau y gellid eu cymryd, os o gwbl, i wella'r cydbwysedd.

### Beth yw Grwpiau Gorchwyl a Gorffen?

3. Grwpiau ymgynghorol ad hoc yw grwpiau gorchwyl a gorffen sydd wedi'u sefydlu i gyflawni tasg benodol, i gyflwyno adroddiad arni ac yna i'w dirwyn i ben. Gwaith tymor byr yw hwn ac fel arfer mae o natur benodol iawn. Mae angen i'r aelodau feddu ar gryn wybodaeth ac arbenigedd felly er mwyn gallu cyfrannu'r effeithiol at y gwaith a fydd yn esgor ar ganlyniadau gwerth chweil o fewn cyfnod byr. Gall yr aelodau ddod o gefndiroedd amrywiol iawn sy'n adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i lunio polisïau cynhwysol ac i ymgynghori'n eang. Oherwydd eu natur tymor byr nid ydynt at ei gilydd yn perthyn i grp y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

### Yr Arfer Cyfredol

4. Yn y rhan fwyaf o achosion, carfanau perthnasol yn hytrach na Gweinidogion sy'n enwebu pobl i fod yn aelodau o grwpiau gorchwyl a gorffen. Y cyrff sy'n cael eu cynrychioli ar y Grwpiau sy'n penderfynu pwy a all ddiwallu anghenion y corff dan sylw orau, ar sail eu gallu, eu profiad a'u rhinweddau. Mae ganddynt nod gyffredin o sicrhau bod y grp yn gweithio'n

effeithiol ac yn cyflawni ei gylch gwaith. Bydd yr enwebiadau yn derbyn sêl bendith Gweinidog priodol y Cynulliad. Gan na chânt eu hystyried yn Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, nid ydynt felly yn rhan o gylch gwaith Cod y Comisiynydd ar Benodiadau Cyhoeddus. Serch hynny, pan fydd Gweinidog yn penodi aelodau'n uniongyrchol, gwneir hynny yn unol ag ysbryd y Cod, gan sicrhau eu bod yn dilyn yr egwyddorion sy'n sail i broses deg, agored a thryloyw o benodi.

**Cymhwyso Egwyddorion Nolan**

5. Pan fydd Gweinidogion y Cynulliad yn gwneud penodiadau, rydym wedi cadarnhau eu bod yn glynu wrth Egwyddorion Nolan. Ni roddir unrhyw ganllawiau penodol i gyrff wrth eu cyfeirio at Egwyddorion Nolan pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau dethol. Wedi dweud hynny, fodd bynnag, mae natur gynhenid y grwpiau gorchwyl a gorffen yn gofyn bod yr aelodau'n meddu ar gryn wybodaeth, arbenigedd a phrofiad. Mae'r gofynion hyn yn gydnaws ag egwyddorion Nolan, sef y dylid penodi aelodau i gyrff cyhoeddus ar sail eu teilyngdod ac y dylid dethol unigolion sydd, trwy eu gallu, eu profiad a'u rhinweddau, yn diwallu angenion y cyrff hyn. Yn ogystal, er mwyn bodloni'r gofyniad o sicrhau bod y broses yn dryloyw ac yn cael ei chofnodi'n llawn, awgrymir bod yr is-adrannau sy'n gyfrifol am sefydlu'r grwpiau hyn yn paratoi 'cyfansoddiad' ysgrifenedig a ddylai gynnwys cylch gwaith y grp; pryd bydd yn cyflwyno adroddiad ac i bwy: a sut y dylid ethol yr aelodau. Bydd canllawiau ffurfiol ar y drefn ar gyfer sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen yn cael eu paratoi. Dylai gynnwys gofyniad i ystyried cydbwysedd y grp o ran cydraddoldeb os teimlir ei fod yn ddymunol gwneud hyn.

**Cydbwysedd o ran Rhyw ac Ethnigrwydd**

6. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gennym am gydbwysedd y grwpiau gorchwyl a gorffen o ran rhyw wedi'i seilio ar ddata a gasglwyd ym mis Ebrill eleni, sef:

Nifer y grwpiau: 79

Cyfanswm nifer yr aelodau: 1437, sef

Dynion 961 (67%)

Gwragedd: 476 (33%)

7. Ni chafodd data'i gasglu'n ganolog sy'n ymwneud â chydbwysedd o ran ethnigrwydd nac unrhyw gydbwysedd arall. Byddwn yn ymdrin â hyn y tro nesaf y byddwn yn diweddaru'n cofnodion.

**Partneriaethau Amcan Un**

8. Wrth ystyried cydbwysedd o ran rhyw, awgrymwyd y gallai partneriaethau Amcan Un gynnig model o arferion da wrth geisio sicrhau mwy o gydbwysedd. Grwpiau ad hoc yw'r grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n cael eu sefydlu yn ôl yr angen er mwyn ymdrin ag un pwnc penodol o blith holl gyfrifoldebau eraill y Cynulliad. Dim ond hyd nes i'w tasg gael ei chwblhau y bydd yr aelodau'n gwasanaethu. Efallai na ellir eu cymharu'n union â'r Partneriaethau Amcan Un, sef cyrff sefydlog wedi'u sefydlu i helpu i roi raglenni ar waith mewn dull strategol ac sy'n penodi aelodau am gyfnod o bedair blynedd fan bellaf. Fodd bynnag, rydym wedi edrych ar y trefniadau ar gyfer penodi aelodau i'r Byrddau Partneriaeth i weld a oes unrhyw wersi i'w dysgu.

9. Yn ôl y Canllawiau Partneriaeth, caiff aelodau eu dewis ar sail profiad ac arbenigedd yr unigolion dan sylw. Fel arfer, corff yn eu sector sy'n eu henwebu ond wrth ymuno â'r bwrdd, disgwylir iddynt roi budd economaidd ehangach yr ardal bartneriaeth leol o flaen budd y sector neu fudd arall sy'n fwy cyfyng. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylai aelodau o'r bwrdd at ei gilydd fod yn gytbwys o ran rhyw. [Mae pob partneriaeth leol wedi cyrraedd sefyllfa lle mae o leiaf 25% o'r aelodau yn cynrychioli'r naill rhyw a'r llall. Mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni wedi cytuno y dylai'r ffigur hwn godi i 40%]. Er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at y gofyniad ar gydbwysedd o ran rhyw, mae'r canllawiau'n nodi y dylai fod gan bob partneriaeth broses o adolygu'u haelodaeth ac y dylid gwneud hynny bob blwyddyn.

10. Mae'r drefn hon felly yn eithaf tebyg i'r trefniadau ar gyfer penodi aelodau i grwpiau gorchwyl a gorffen. Er enghraifft, yn yr egwyddor y dylid dewis aelodau ar sail eu profiad a'u harbenigedd er mwyn iddynt allu leisio barn yr etholwyr y maent yn eu cynrychioli, a thrafod materion o ddiddordeb cyffredin â hwy. Fodd bynnag, mae camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i sicrhau cydbwysedd o ran rhyw ar fyrddau Partneriaeth.

11. O ystyried y ffigurau a geir ym mharagraff 6 uchod, mae'n ymddangos bod aelodau'r grwpiau gorchwyl a gorffen at ei gilydd yn fwy na'r lleiafswm sy'n ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer partneriaethau Amcan Un. Yr hyn y gallwn ei ddysgu o Ganllawiau'r Partneriaethau yw'r camau sy'n cael eu cymryd i annog y rhai sy'n enwebu aelodau i ystyried cydbwysedd o ran rhyw. Mae hwn yn rhywbeth y gallem ystyried ei fabwysiadu wrth sefydlu grwpiau yn y dyfodol. (Dylid cydnabod, fodd bynnag, y gallai camau o'r fath arwain at sefyllfa lle caiff unigolyn ei enwebu ar sail ei ryw yn hytrach nag ar sail ei rinweddau a'i brofiad sy'n cael eu hystyried yn holl-bwysig yn achos grwpiau gorchwyl a gorffen).

**Camau i'w cymryd**

12. Gwahoddir aelodau i nodi'r sefyllfa a rhoi eu sylwadau.

**Enw Cyswllt – Colette Eley, ACO**